# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd dros fideo ddydd Iau, 10 Rhagfyr 2020 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Anton Sampson, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

**Aelodau'r Cabinet –** Y Cynghorwyr Brian Jones, Aelod Arweiniol ar gyfer Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd a Mark Young, Aelod Arweiniol ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

**Arsylwyr –** Y Cynghorwyr Meirick Davies, Hugh Irving, Arwel Roberts, Peter Scott, ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol (TW), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Rheolwr Risg Llifogydd (WH), Rheolwr Adain – Rheoli Rhwydwaith (TT), Rheoli Cynllunio Strategol a Thai (AL); Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

**Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) -** Keith Ivens

**Cynrychiolwyr Dŵr Cymru -** Simon Cowan a Martin Williams

Roedd y Gohebydd Democratiaeth Lleol hefyd yn bresennol ar fideo er mwyn arsylwi'r cyfarfod.

## PWYNT O SYLW

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd. Cafodd pob aelod gyfle i fynychu fel arsylwyr a chafodd y Gohebydd Democratiaeth Lleol wahoddiad i arsylwi hefyd.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd yn dirprwyo yn y cyfarfod)

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Cymunedau arbennig a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020.

**(a) Pwyllgor Craffu Cymunedau Arbennig (5 Hydref 2020)**

Dim pwyntiau i'w cywiro na materion yn codi.

**(b) Pwyllgor Craffu Cymunedau (22 Hydref 2020)**

**Eitem 5 Effaith Adolygiad Cynradd Rhuthun (tudalen 20)** – Eglurodd y Cynghorydd Merfyn Parry fod yr adroddiad gwybodaeth y gofynnodd amdano yn ymwneud â chanlyniadau asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gymunedau Rhewl a Llanynys yn dilyn cau Ysgol Rhewl. Dywedodd fod y cyn Bennaeth Addysg a'r cyn Bennaeth Moderneiddio Addysg wedi addo cynnal yr asesiad o'r effaith ar y gymuned pan benderfynwyd cau'r ysgol. Cytunodd y Cydlynydd Craffu i wneud ymholiadau mewn perthynas â'r adroddiad hwnnw.

**Eitem 7 Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru a Charchar Rhuthun (tudalennau 22/23)** – Cofrestrodd y Cadeirydd ei siom bod yn rhaid i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gamu i mewn cyn i'r ddolen i'r arolwg ar-lein ar Borth Sgwrs y Sir ar Wasanaeth Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru gael ei dosbarthu i gynghorwyr sir yn dilyn cais y Pwyllgor i hynny gael ei wneud ar unwaith er mwyn hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd â'r ymarfer ymgynghori. Gofynnodd y Pwyllgor i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ofyn am esboniad ynghylch yr oedi ac i bwysleisio wrth Benaethiaid Gwasanaeth bwysigrwydd ymateb i geisiadau Pwyllgorau ac adrodd yn ôl i'r aelodau ar ganlyniadau unrhyw ymholiadau mewn modd amserol.

Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd-Davies a ddylid ymgorffori'r pwynt bwled olaf mewn perthynas â'r polisi iaith fel rhan o argymhelliad y Pwyllgor. Dywedodd y Cydlynydd Craffu y byddai'r polisi iaith yn rhan o'r bartneriaeth ffurfiol/ Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth ar y cyd a dywedodd pe bai'r Pwyllgor yn dymuno diwygio'r argymhellion yn y cofnodion i gynnwys argymhelliad mewn perthynas â'r polisi iaith y gallai wneud hynny yn y cyfarfod presennol. Ni ofynnodd unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn ffurfiol iddynt gael eu diwygio.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) bod cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir, ac*

(b) *ar yr amod bod yr ymholiadau y gofynnwyd amdanynt yn cael eu dilyn a'u hadrodd yn ôl i'r aelodau, bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.*

Roedd consensws yn cytuno ar yr argymhelliad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad i gymeradwyo. Nododd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd neb eu bod yn ei erbyn ac ni nododd neb eu bod am ymatal.

## 5 RHEOLI RISG LLIFOGYDD AR DRAWS SIR DDINBYCH

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys Simon Cowan a Martin Williams, Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) a Keith Ivens, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer y drafodaeth ar reoli risg llifogydd ar draws Sir Ddinbych.

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol ar gyfer Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd a Phennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol yr eitem. Esboniwyd bod adroddiad ar Astudiaeth Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn a oedd i'w drafod yn y cyfarfod wedi'i ohirio a'i aildrefnu ar gyfer mis Mai 2021. Roedd yr ymchwiliadau i ddigwyddiadau llifogydd Chwefror 2020 ac effaith ddilynol pandemig Covid-19 wedi effeithio ar allu CNC i ddatblygu'r gwaith sydd ei angen i gwblhau'r astudiaeth. Nodwyd y byddai adroddiad yr ymchwiliad i lifogydd mis Chwefror 2020 yn debygol o fod ar gael erbyn diwedd mis Chwefror 2021. Dywedodd y Cynghorydd Jones fod y cyngor yn rhagweithiol o ran rheoli risg llifogydd ar draws y sir a thynnodd sylw at y gwaith a wnaed ar gynlluniau amddiffyn yr arfordir a thynnodd sylw at y ffaith bod Sir Ddinbych wedi derbyn £1m (100%) yn ddiweddar mewn arian grant gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Prosiect Rheoli Llifogydd Naturiol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Peiriannydd Risg Llifogydd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn amlinellu mesurau rheoli a lliniaru llifogydd i ddelio â phob math o berygl llifogydd ledled y sir. Roedd y mesurau hynny'n cynnwys gwaith gyda phartneriaid cyhoeddus a phreifat a thirfeddianwyr, prosiectau peirianneg a gweithgareddau rheoli tir, gyda'r nod o leihau'r risg o lifogydd a gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys manylion y gwaith yr oedd yr Adran Gynllunio yn ei wneud mewn perthynas â lliniaru llifogydd fel rhan o'r broses gynllunio.

Cyfeiriwyd yn benodol at y canlynol –

- roedd gan wahanol awdurdodau gyfrifoldeb dros wahanol feysydd rheoli risg llifogydd – Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) mewn perthynas â dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin a risg erydu arfordirol; Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn perthynas â phrif afonydd a'r môr, a Dŵr Cymru (DCWW) mewn perthynas â charthffosydd cyhoeddus. Roedd gan unrhyw un a oedd yn berchen ar dir wrth ymyl afon, nant neu ffos gyfrifoldebau hefyd fel 'tirfeddiannwr glannau’r afon'. Gweithiodd y cyngor gydag awdurdodau rheoli risg llifogydd eraill, yn ogystal â datblygwyr a thirfeddianwyr, i chwilio am gyfleoedd i reoli a lleihau'r risg o lifogydd yn well

- roedd y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gael strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol – cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol gyntaf ar lifogydd yn 2011 ac yn ddiweddar cyhoeddodd ei strategaeth newydd ym mis Hydref 2020. Roedd y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor, fel yr awdurdod llifogydd lleol arweiniol, gael strategaeth ar gyfer rheoli risg llifogydd yn lleol sy'n canolbwyntio ar ddŵr ffo, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin – cyhoeddodd y cyngor ei strategaeth leol yn 2014, yr oedd yn ofynnol ei hadolygu erbyn mis Rhagfyr 2022
- roedd y cyngor yn ystyried risg llifogydd wrth asesu ceisiadau cynllunio gan gyfeirio'n benodol at bolisi cynllunio Nodyn Cyngor Technegol 15. Comisiynwyd Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2006 - 2021 a oedd yn ystyried goblygiadau risg llifogydd ar gyfer elfennau allweddol a nodwyd yn y CDLl. Yn 2019 daeth y cyngor yn Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy gyda chyfrifoldeb am gymeradwyo a mabwysiadu draenio dŵr wyneb ar ddatblygiadau newydd.
- ers 2003 roedd y cyngor wedi buddsoddi tua £41m o arian cyfatebol Llywodraeth Cymru a'r cyngor i leihau'r risg o lifogydd ar gyfer tua 4000 o gartrefi a busnesau yn y sir. Fodd bynnag, roedd tua 15,200 o eiddo yn dal i fod mewn risg o lifogydd o'r môr, afonydd a dŵr wyneb. Nodwyd rhaglen o gynlluniau posibl i leihau'r risg ar gyfer 4,750 o eiddo eraill, gan gynnwys 1650 yn Nwyrain y Rhyl a fyddai'n cael eu diogelu gan gynllun amddiffyn yr arfordir sydd ar y gweill ar hyn o bryd.
- ym mis Chwefror 2020 roedd stormydd Ciara, Dennis a Jorge wedi effeithio ar Sir Ddinbych. Canfu dadansoddiad ar ôl y digwyddiad gan CNC fod y rhan fwyaf o fesuryddion glaw yn y rhanbarth wedi cofnodi dros 200% o'u cyfartaledd Chwefror hirdymor. Creodd Storm Ciara yn arbennig ddigwyddiad cwymp glaw gwaeth nag 1 mewn 200 mlynedd gyda'r rhan fwyaf o amddiffynfeydd rhag llifogydd afonydd yn Sir Ddinbych yn darparu amddiffyniad yn erbyn digwyddiad cwymp glaw o 1 mewn 100 mlynedd ar y mwyaf. Digwyddodd llifogydd mewn nifer o leoliadau, yn bennaf oherwydd gorlifo prif amddiffynfeydd rhag llifogydd afonydd megis yn Llanelwy. Fel yr awdurdod llifogydd lleol arweiniol roedd gan y cyngor ddyletswydd i ymchwilio ond oherwydd mai afonydd oedd prif ffynhonnell y llifogydd, cytunwyd mai CNC oedd yn y sefyllfa orau i arwain yr ymchwiliad. Mae'n debygol y byddai'r adroddiad ar yr ymchwiliad i lifogydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2021.

Dywedwyd wrth yr Aelodau na fyddai byth yn bosibl dileu llifogydd yn Sir Ddinbych ond roedd yn bwysig lleihau'r risg o lifogydd cyn belled ag y bo modd ac roedd effaith newid yn yr hinsawdd yn ei gwneud yn anos rheoli risg llifogydd. Roedd gan y cyngor hanes da o ddarparu prosiectau seilwaith risg llifogydd mawr, yn fwyaf diweddar yn Nwyrain y Rhyl a llwyddiant mawr o ran sicrhau cyllid ar gyfer cynlluniau llai. O ystyried uchelgeisiau amgylcheddol y cyngor i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, croesawyd y £1m diweddar a sicrhawyd ar gyfer gwaith dalgylch (Prosiect Rheoli Llifogydd Naturiol) yn arbennig a llongyfarchwyd a diolchwyd i'r Peiriannydd Risg Llifogydd am ei ymdrechion yn hyn o beth. Derbyniwyd bod llawer o ardaloedd o'r sir wedi dioddef llifogydd, gan gynnwys ym mis Chwefror 2020, a byddai trafodaethau pellach ar y camau nesaf yn cael eu cynnal ar ôl cwblhau'r adroddiad ar yr ymchwiliad i lifogydd ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Cyflwynodd Keith Ivens (CNC) a Simon Cowan (DCWW) eu hunain a rhoddwyd trosolwg o'u priod rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli llifogydd o fewn eu sefydliadau ynghyd â'u cysylltiadau â rhanddeiliaid/partneriaid eraill. Adroddodd Mr Ivens ar waith a wnaed yn ystod y flwyddyn gan gynnwys bwydo i mewn i strategaeth llifogydd genedlaethol Llywodraeth Cymru ac adolygu'r materion sy'n ymwneud â'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd mis Chwefror 2020 (gan gynnwys Llanelwy lle'r oedd y cynllun amddiffyn rhag llifogydd wedi perfformio'n dda o ystyried maint y digwyddiad, ond gan gydnabod bod llifogydd wedi digwydd o hyd er i raddau llai) a byddai'r canfyddiadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar yr ymchwiliad i lifogydd a oedd i'w gwblhau ym mis Chwefror 2021. Darparwyd diweddariad hefyd o ran cynnydd gydag Astudiaeth Ffos y Rhyl a Chwter Prestatyn gan gynnwys adolygu rhaglen cynnal a chadw'r ddwy sianel hynny a chyfarwyddo gwaith atgyweirio yn dilyn llifogydd Chwefror 2020. Rhagwelwyd y byddai'r astudiaeth yn cael ei chwblhau a'i bod ar gael i'r aelodau yn ystod mis Chwefror/Mawrth 2021. Roedd CNC hefyd yn edrych ar hyfywedd opsiynau ar gyfer cynllun rheoli risg llifogydd posibl a fyddai'n cael ei ddatblygu fel achos amlinellol strategol i'w ddatblygu yn nhymor canolig 2021 - 2026. Yn olaf, cyfeiriwyd at effaith newid yn yr hinsawdd gyda gwaith modelu ar ragfynegiadau i asesu perfformiad amddiffynfeydd llifogydd presennol mewn cymunedau fel Rhuthun ac a oedd angen unrhyw waith i gynnal a gwella gwydnwch yn y dyfodol. Adroddodd Mr Cowan ei fod yn canolbwyntio ar ddalgylch Clwyd a deall sut yr oedd ysgogwyr busnes yn cysylltu â Phroses Datganiad Ardal CNC i'w halinio ag ysgogwyr busnes ac anghenion cwsmeriaid. Roedd yn edrych ymlaen at gydweithio â'r cyngor ar y Prosiect Rheoli Llifogydd Naturiol wrth i waith ddatblygu.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i godi cwestiynau a thrafod gwahanol agweddau ar yr adroddiad a materion yn ymwneud â llifogydd gyda'r swyddogion a chynrychiolwyr a oedd yn bresennol. Roedd y prif bwyntiau trafod yn canolbwyntio ar y canlynol –

- Ymhelaethodd CNC ar y dadansoddiad ystadegol o'r data sydd ar gael i bennu a rhagfynegi risg llifogydd ac adroddodd ar y rhwydwaith monitro o fesuryddion afonydd gyda darlleniadau'n cael eu cymryd bob 15 munud i gyfrifo tebygolrwydd llifogydd. Roedd llifogydd 1:100 mlynedd yn cyfateb i siawns o 1% o lifogydd yn digwydd mewn unrhyw flwyddyn gyda digwyddiad llifogydd 1:200 mlynedd yn cyfateb i siawns o 0.5%, felly er y gallai llifogydd ddigwydd o hyd, lleihaodd y tebygolrwydd. Tynnwyd sylw hefyd at effaith newid yn yr hinsawdd dros amser ar amlder a dwyster llifogydd.
- o ran dibynadwyedd tystiolaeth data a rhagfynegiadau llifogydd a'r iaith a ddefnyddiwyd i drosglwyddo gwybodaeth, esboniodd CNC fod gorsafoedd medryddu lefelau'r afonydd yn destun rhaglen gynnal a chadw gyda data cael sicrwydd ansawdd ac roedd y dadansoddiad ystadegol ei hun o safon y diwydiant. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw ragfynegiad 100% yn gywir ond roedd yn arwydd o raddfa ac amlder digwyddiadau a byddai'r gyfradd gywirdeb yn gwella gydag amser wrth i fwy o ddata gael ei gasglu. Yr oedd CNC yn ymwybodol o'r iaith a ddefnyddiwyd ac yr oeddent yn ceisio symud i ffordd ystadegol o egluro'r siawns o lifogydd ym mhob blwyddyn.
- eglurodd y Rheolwr Risg Llifogydd fod y casgliad yn y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol nad oedd unrhyw risg sylweddol o lifogydd yn y sir wedi'i seilio ar

feini prawf cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) gyda’r mesur o risg llifogydd ddim yn bodloni'r trothwy cenedlaethol a osodwyd. Nid oedd unrhyw wardiau yng Ngogledd Cymru wedi'u diffinio fel rhai a oedd mewn risg sylweddol o lifogydd ac yr oedd awdurdodau lleol ledled y rhanbarth wedi cwestiynu sail y cyfrifiad.

- o ran blaenoriaethu buddsoddiad i'r rhai sydd mewn risg o lifogydd, y dull a ffafrir gan Lywodraeth Cymru oedd ystyried cynlluniau i ddiogelu sawl eiddo a fyddai'n rhoi gwell gwerth am arian o ran buddsoddi yn hytrach nag eiddo unigol ynysig. Sicrhawyd grantiau i ddiogelu rhai eiddo yn Rhuddlan sydd mewn risg o lifogydd dŵr wyneb lle nad oedd dewis arall ac ystyriwyd amgylchiadau fesul achos.
- dywedodd y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai fod risg llifogydd yn cael ei ystyried wrth flaengynllunio (CDLl newydd) ac ymdrin â cheisiadau cynllunio – yn y ddau achos dan arweiniad polisi a chyngor Llywodraeth Cymru lle'r oedd yn amlwg y dylid mabwysiadu dull gofalus. Defnyddiwyd mapiau cyngor datblygu ar ardaloedd lle ceir risg o lifogydd a darparwyd manylion y categoreiddio perthnasol ynghyd â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 ar risg llifogydd. Roedd yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn rhoi mwy o fanylion am ardaloedd lle ceir risg o lifogydd yn y sir. Disgwylid mapiau risg llifogydd a NCT newydd yn y gwanwyn a fyddai'n llywio penderfyniadau yn y dyfodol. Holodd y Cynghorydd Rachel Flynn a oedd yn briodol rhoi caniatâd cynllunio yn yr ardaloedd hynny tra'n aros am y polisi/canllawiau diweddaraf a chyfeiriodd y Cynghorydd Mark Young at gymhlethdodau'r mater a chynigiodd drafod y mater ymhellach y tu allan i'r cyfarfod.
- Lleisiodd y Cynghorydd Merfyn Parry ei rwystredigaeth ynghylch y diffyg cynnydd yn Llanynys a'r problemau a gafwyd yn yr ardal honno, gan gynnwys o ran tirfeddianwyr glannau’r afon ac anawsterau wrth wneud y gwaith angenrheidiol, ac roedd yn awyddus i bawb gydweithio i ddod o hyd i atebion. Roedd hefyd yn anhapus â'r dull a gymerwyd i flaenoriaethu buddsoddiad mewn ardaloedd â mwy o eiddo. Cydnabu swyddogion nad oedd yr adroddiad yn cynnwys cyfeiriad at ardaloedd lleol penodol ond byddai'r materion hynny'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymchwiliad i lifogydd mis Chwefror i'w drafod bryd hynny. Roedd cyfrifoldebau pob awdurdod wedi'u nodi yn yr adroddiad er eglurder a rhoddwyd sicrwydd eu bod yn cydweithio'n agos a bod gwaith yn parhau i ddod o hyd i wraidd y problemau llifogydd yn Llanynys. Eglurwyd cyfrifoldeb tirfeddianwyr glannau'r afon a darparwyd y broses i'w dilyn i sicrhau nad oedd y gwaith a gynigiwyd yn achosi niwed neu'n cynyddu llifogydd mewn mannau eraill, a mewn rhai achosion yn gofyn am drwydded gweithgaredd risg llifogydd a darparwyd rhagor o fanylion yn hynny o beth. Ymatebodd y Cynghorydd Parry fod rhai amodau a osodwyd yn creu rhwystr o ran gwneud y gwaith rheoli llifogydd a chynigodd ddarparu rhagor o fanylion mewn perthynas â hynny. Nodwyd hefyd bod y diffyg ceisiadau a gyflwynwyd i wneud gwaith o'r fath ac ymchwiliadau i waith a wnaed heb y caniatâd angenrheidiol yn arwydd posibl y gallai'r mater elwa o graffu pellach. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor ddymuno sefydlu grŵp tasg a gorffen at y diben hwnnw gyda chynrychiolwyr o bwyllgorau craffu eraill. Cadarnhaodd Cynrychiolwyr CNC a DCWW y byddent yn fodlon i'w sefydliadau gyfrannu at grŵp tasg a gorffen.

Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i aelodau nad oeddent ar y pwyllgor a soniodd y Cynghorwyr Meirick Davies, Arwel Roberts ac Emrys Wynne am lifogydd a gafwyd

yn eu hardaloedd lleol a chyfeiriodd y Cynghorydd Peter Scott at y materion penodol yn Llanelwy a rhai mannau cyfyng yr oedd angen mynd i'r afael â hwy. Ymatebodd CNC a swyddogion i rai o'r materion unigol a godwyd a hefyd i gwestiynau fel a ganlyn –

- o ran clirio afonydd roedd gan CNC raglen cynnal a chadw flynyddol wedi'i chostio yn seiliedig ar risg. Byddai asesiad yn cael ei wneud o unrhyw adroddiadau am falurion a byddai gwaith yn cael ei wneud ar unwaith pe bai risg llifogydd. Cyhoeddwyd y rhaglen gynnal a chadw ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a chytunwyd y dylid e-bostio dolen i'r wybodaeth honno at aelodau y tu allan i'r cyfarfod.
- Argymhellodd y Cynghorydd Mark Young well cyfathrebu rhwng Corff Cymeradwyo'r System Draenio Cynaliadwy ac aelodau wardiau lleol ac ar ei gais, cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd i ganfod a fyddai'n briodol i aelodau fod ar y Corff hwnnw.
- Cadarnhaodd CNC yr ymgynghorwyd â hwy ar geisiadau cynllunio mewn perthynas ag ardaloedd lle mae risg llifogydd ac roeddent yn cyflwyno eu barn fel rhan o'r broses honno.
- roedd yr aelodau'n falch o nodi'r £1m o arian grant Llywodraeth Cymru a sicrhawyd ar gyfer y Prosiect Rheoli Llifogydd Naturiol a gwaith dalgylch. Roedd y prosiect yn ei gamau datblygu cynnar gyda phedwar lleoliad wedi'u nodi ac roedd ymgynghorydd yn cael ei gaffael ar hyn o bryd i ddatblygu'r gwaith hwnnw ar ran y cyngor – cytunwyd y dylid dosbarthu adroddiad gwybodaeth i'r aelodau pan oedd yn hysbys beth fyddai gwaith y prosiect yn ei olygu.
- ailadroddodd swyddogion fod y mapiau risg llifogydd a NCT 15 yn cael eu diweddaru gyda'r disgwyliad y byddent yn cael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2021. Roedd y mapiau cyfredol a ddefnyddiwyd ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio wedi'u diweddaru bob chwarter ers 2017 a phan fyddant ar gael byddai'r mapiau newydd yn cael eu defnyddio at y diben hwnnw ac i lywio'r CDLl newydd wrth symud ymlaen. Byddai'n anodd canfod faint o dai presennol yn sir Ddinbych na fyddai wedi'u caniatáu o dan y system bresennol o ystyried bod y mapiau risg llifogydd wedi newid dros y blynyddoedd a byddai angen dyddiad penodol. Wrth ddatblygu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd i ddiogelu eiddo, ystyriwyd risg llifogydd hanesyddol a'r risg o lifogydd a ragwelir yn y dyfodol.

Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben a diolchodd i CNC a DCWW am eu presenoldeb a'u cyfraniadau a hefyd yr aelodau a'r swyddogion a oedd yn bresennol. Rhoddodd y Cynghorydd Graham Timms grynodeb o argymhellion arfaethedig y Pwyllgor.

Ar ôl trafodaeth derfynol ar yr argymhellion arfaethedig –

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *bod gweithgareddau rheoli risg llifogydd presennol ac arfaethedig y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â deddfwriaeth risg llifogydd, a'i fod yn defnyddio ei bwerau yn effeithiol i wneud gwelliannau i amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol:*

(b) *bod y Cyngor yn cymryd camau digonol i weithio'n effeithiol gyda thirfeddianwyr, datblygwyr ac awdurdodau rheoli risg eraill i reoli risg llifogydd yn Sir Ddinbych;*

(c) *bod y Cyngor yn cyflawni'r canlyniadau a'r mesurau a nodir yn y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol;*

(d) *y dylid ymgysylltu â'r Grwpiau Ardal Aelodau perthnasol mewn perthynas â chyfnodau dylunio a datblygu Cynllun Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl a Chynllun Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn yn ystod y 12 mis nesaf ac y dylid adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gasgliadau'r cam hwn o'r cynllun maes o law;*

(e) *sefydlu grŵp tasg a gorffen i archwilio dulliau o gryfhau ymhellach y rhyngweithio a'r berthynas waith rhwng awdurdodau rheoli risg llifogydd cyhoeddus a thirfeddianwyr glannau'r afon ar draws y sir gyda'r nod o wella dealltwriaeth ei gilydd o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â sicrhau llif dŵr di-rwystyr drwy'r tir y maent yn ei reoli, a*

(f) *bod yr adroddiadau ar y cynigion rheoli llifogydd ar gyfer Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn, ynghyd â'r adroddiad ar yr ymchwiliad i lifogydd Chwefror 2020 yn Sir Ddinbych, yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor cyn gynted ag y byddant ar gael.*

Roedd consensws yn cytuno ar yr argymhelliad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad i gymeradwyo. Nododd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd neb eu bod yn ei erbyn ac ni nododd neb eu bod am ymatal.

## 6 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am adolygiad yr aelodau o raglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion perthnasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- ailgadarnhawyd yr eitemau a restrwyd ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 21 Ionawr 2021
- roedd Astudiaeth Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn wedi'i threfnu ar gyfer y cyfarfod ar 13 Mai 2021 ond byddai'n cael ei chyflwyno pe bai ar gael yn gynharach
- nid oedd angen y cyfarfod ychwanegol a drefnwyd ar gyfer 4 Chwefror 2021 i ystyried Prosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu mwyach a byddai pob agwedd ar y prosiect yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor ym mis Mai 2021 fel y bwriadwyd yn wreiddiol
- gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw ffurflenni cynnig ynghylch pynciau i graffu arnynt cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar 21 Ionawr 2021, a
- chyfeiriwyd at y brîff gwybodaeth a ddosbarthwyd i'r aelodau cyn y cyfarfod yn amgáu'r adroddiadau gwybodaeth y gofynnodd y Pwyllgor amdanynt.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar y gwelliannau a'r ychwanegiadau i'r rhaglen waith i'r dyfodol ddrafft a gynigiwyd yn ystod y cyfarfod, cadarnhau Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.*

Roedd consensws yn cytuno ar yr argymhelliad. Ni chafwyd pleidlais ffurfiol. Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad i gymeradwyo. Nododd pob aelod eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd neb eu bod yn ei erbyn ac ni nododd neb eu bod am ymatal.

## 7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau gan gynrychiolwyr pwyllgorau.

Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd.